



PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Llyfryn Canllawiau Rhestr Termau

Achwynydd	Unigolyn sy'n cyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch aelod o awdurdod perthnasol.
Adroddiad ynghylch ymchwiliad	Adroddiad i'r tribiwnlys.
Aelod cyfreithiol	Aelod cymwys o safbwynt cyfreithiol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r tribiwnlys
Aelod lleyg	Aelod o'r tribiwnlys sydd â gwybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r tribiwnlys.
Apêl	Apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Safonau bod aelod wedi gweithredu'n groes i'r cod ymddygiad.
Apelydd/Ceisydd	Yr unigolyn sy'n cyflwyno'r apêl.
Atal	Caiff aelod ei atal rhag cyflawni pob dyletswydd fel aelod, am gyfnod a nodir.
Atal yn rhannol	Caiff aelod ei atal rhag cyflawni rhai dyletswyddau fel aelod, am gyfnod a nodir.
Atebydd	Unigolyn sy'n destun yr atgyfeiriad.
Atgyfeiriad	Yr adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad i g yn ynghylch aelod yr honnir iddo weithredu'n groes i'r cod ymddygiad.
Awdurdodaeth	Awdurdod i ymdrin â'r mater.
Awdurdodau perthnasol	Pawb sydd â budd yn y cais.
Bwndel	Set o bapurau/dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y tribiwnlys a'r gwrandawriad a fydd yn dilyn.
Ceryddu	Mynegiant swyddogol o anghymeradwyaeth neu gondemniad.
Clerc	Aelod o'r ysgrifenyddiaeth sy'n rheoli'r gwaith o weinyddu'r gwrandawriad ond nad yw'n chwarae unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniadau.
Cod ymddygiad	Set o ganllawiau y mae'n rhaid i bob aelod o'r awdurdodau perthnasol lynu wrthynt fel aelodau o'r awdurdodau hynny.
Cofrestrydd	Gweinyddiaeth Pennaeth y Tribiwnlys.
Cyfarwyddiadau	Dogfen sy'n cynnwys camau penodol i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol am yr achos yn cael ei darparu.
Cynrychiolydd	Unigolyn yr ydych chi wedi'i ddewis i'ch cynorthwyo yn eich achos.

Gwahardd	Nid yw aelod yn aelod o'r awdurdod bellach, am gyfnod a nodir.
Gwrandawriad	Gwrandawriad i benderfynu ynghylch canlyniad yr apêl neu'r atgyfeiriad.
Gwrandawriad ynghylch sylwadau ysgrifenedig	Cyfarfod lle bydd Panel Tribiwnlys yn dod i benderfyniad ynghylch achos ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig sydd ger ei fron, a lle nad yw partiön yr achos yn bresennol.
Tribiwnlys achos	Panel o aelodau sy'n gwrandao ar atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac sy'n dod i benderfyniad yn eu cylch.
Tribiwnlys apêl	Panel o aelodau a ddewisir gan y Llywydd i wrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau a dod i benderfyniad yn eu cylch.